HYSBYSIAD PREIFATRWYDD Cyngor Dinas Casnewydd a;

Datganiad RHEOLIAD DIOGELU DATA CYFFREDINOL (GDPR)

Deddf Diogelu Data 2018

Mae Cyngor Dinas Casnewydd (CDC) yn casglu ac yn prosesu llawer o wybodaeth bersonol i gynnal ei swyddogaethau fel awdurdod lleol. Mae'r ddogfen hon yn egluro sut byddwn yn casglu ac yn storio eich data ac yn cynnig trosolwg o'n gweithgareddau prosesu. Sylwch fod manylion ein gweithgareddau prosesu ym mhob Hysbysiad Preifatrwydd unigol, gallwch gael manylion amdanynt ar ein gwefan.

Ffynhonnell gwybodaeth a chategorïau o wybodaeth fydd yn cael eu prosesu

Bydd mwyafrif y wybodaeth yr ydym yn ei chasglu yn cael ei darparu gennych chi, y Gwrthrych Data. Weithiau, byddwn yn cael eich data personol gan ffynonellau eraill. Os hyn yw'r achos, byddwn yn dweud wrthych o lle'r ydym wedi cael eich gwybodaeth (y ffynhonnell) ac egluro i chi'r categorïau gwybodaeth yr ydym wedi'u casglu, er enghraifft, eich enw, cyfeiriad a dyddiad geni.

Pwrpas a sail gyfreithiol dros ddefnyddio eich gwybodaeth

Ar gyfer bob un o'ch gweithgareddau prosesu, byddwn yn dweud wrthych yn union pam fod angen i ni brosesu eich gwybodaeth bersonol. Byddwn hefyd yn nodi sail gyfreithiol dros brosesu eich gwybodaeth. Byddwn ond yn gofyn am wybodaeth amdanoch chi sy'n briodol at ddibenion prosesu.

Os oes gennym ganiatâd i brosesu eich gwybodaeth, mae'n rhaid i chi ganslo'r caniatâd hwn ar unrhyw adeg a byddwn yn egluro i chi, yn glir, sut i wneud hyn.

Fel Awdurdod Cyhoeddus, mae rhai o'r gwasanaethau yr ydym yn eu cyflawni un ai'n statudol (awdurdod swyddogol), neu mae disgwyliad arnom i gyflawni gwasanaeth (dyletswydd cyhoeddus/tasg). Weithiau, byddwn yn gofyn i chi lofnodi contract i'n galluogi ni i gyflawni gwasanaeth. Os taw dyma'r achos, byddwn yn gofyn i chi am wybodaeth bersonol i'n helpu ni i gyflawni'r gwasanaeth. Os ydych yn dewis peidio â chyflwyno'r wybodaeth, byddwn yn egluro, yn glir, y canlyniadau o beidio â chyflwyno'r wybodaeth.

Weithiau byddwn yn prosesu data categori arbennig sydd â mwy o ddiogelwch dan Ddeddf Diogelu Data 2018. Mae hyn oherwydd ystyrir data categori arbennig yn fwy sensitif. Os ydym yn prosesu eich data categori arbennig, mae angen i ni bennu sail gyfreithiol bellach er mwyn prosesu, a byddwn yn rhoi gwybod i chi beth yw'r sail gyfreithiol honno. *Ystyrir data categori arbennig yn ddata sy'n datgelu tarddiad hiliol neu ethnig, barn wleidyddol, credoau crefyddol neu athronyddol, aelodaeth o undebau llafur, prosesu data genetig neu fiometrig at ddibenion adnabod, data iechyd a chyfeiriadedd rhywiol.*

Weithiau byddwn yn defnyddio cyfrifiaduron neu dechnoleg i'n helpu ni i wneud penderfyniadau am y gwasanaeth yr ydym yn ei gynnig. Os ydym wedi defnyddio'r dechnoleg hon, byddwn yn rhoi gwybod pa system broffilio neu wneud penderfyniadau gafodd ei defnyddio a sut gwnaethpwyd y penderfyniad.

Pwy fydd yn gallu gweld eich gwybodaeth bersonol?

Cyngor Dinas Casnewydd yw'r rheolwr data a'r Swyddog Diogelu Data yw:

Rheolwr Gwasanaethau Digidol
e-bost:
information.management@newport.gov.uk Ffôn:
01633 656656

Sylwch gallai rheolwyr data eraill fod yn gyfrifol am eich gwybodaeth, yn dibynnu ar yr amgylchiadau penodol. Cysylltwch â ni i gael rhagor o wybodaeth.

Pan fyddwn yn prosesu eich gwybodaeth bersonol, byddwn yn dweud wrthych:

i. Pwy yw prif ddefnyddwyr eich gwybodaeth
ii. Os ydym yn rhannu eich gwybodaeth a gyda pwy y byddwn ni'n rhannu'r wybodaeth (yn fewnol ac yn allanol)
iii. Os byddwn ni'n defnyddio 'proseswyr data' pwy ydyn nhw. Mae proseswyr data yn sefydliadau arbenigol yr ydym yn ymgysylltu â nhw, sy'n prosesu data ar ein rhan
iv. Manylion unrhyw drosglwyddiad rhyngwladol o'ch data personol

Ceisiadau am Wybodaeth Bersonol

Gall yr holl wybodaeth bersonol a gofnodir sydd gan Gyngor Dinas Casnewydd fod yn destun ceisiadau dan Ddeddf Diogelu Data 2018.

Os hoffech wneud cais am gopi o'r wybodaeth bersonol sydd gennych amdanoch, gallwch wneud cais am gopi o'n **Ffurflen Gais Gwybodaeth Bersonol** yma:

information.management@newport.gov.uk

Eich Hawliau

Mae'r Ddeddf Diogelu Data'n rhoi nifer o hawliau i chi. Sylwch nad yw pob un o'r hawliau hyn yn sicr, a bydd angen i ni ystyried eich cais pan fyddwn yn ei dderbyn. Mae gennych hawl i wneud cais am:

a) cywiro eich data os yw'n anghywir neu'n anghyflawn;
b) dileu eich data;
c) cyfyngu ar brosesu eich data;
d) arfer eich hawl i symudedd data;
e) gwrthwynebu'r prosesu at ddibenion marchnata uniongyrchol, proffilio a gwneud penderfyniadau awtomataidd.

Ym mhob achos, cyflwynwch eich cais i:

information.management@newport.gov.uk

Gweithdrefn Gwyno
Os nad ydych yn fodlon ar y ffordd y mae Cyngor Dinas Casnewydd yn defnyddio eich data, mae gennych hawl i gwyno. Os hoffech wneud hyn, cysylltwch â ni drwy anfon e-bost i'r cyfeiriad hwn; Information.management@newport.gov.uk.

Os nad ydych yn fodlon ar ganlyniad eich cwyn, gallwch ofyn yn uniongyrchol i'r Comisiynydd Gwybodaeth am benderfyniad. Yn gyffredinol, ni all y Comisiynydd Gwybodaeth wneud penderfyniad oni bai eich bod chi wedi mynd drwy gweithdrefn gwyno'r Cyngor. Gallwch gysylltu â'r Comisiynydd Gwybodaeth ar:

Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth,
Tŷ Wycliffe, Water Lane, Wilmslow,
Cheshire
SK9 5AF.

https://ico.org.uk/

Am ba hyd fyddwn ni'n cadw'ch gwybodaeth?

Byddwn yn cadw'ch gwybodaeth yn unol â Pholisi Cadw a Gwaredu Gwybodaeth Cyngor Dinas Casnewydd. Byddwn ond yn cadw'ch gwybodaeth cyn hired ag sydd angen, ar ôl hynny, bydd yn cael ei ddileu neu ei waredu.

Diogelwch Gwybodaeth

Byddwn yn amddiffyn gonestrwydd a chyfrinachedd eich data personol drwy ddefnyddio'r mesurau technegol neu sefydliadol priodol i sicrhau diogelwch y data personol, gan gynnwys amddiffyn rhag prosesu anghyfreithlon neu anawdurdodedig ac yn erbyn colled, dinistrio neu niwed damweiniol.